

Penodi Cadeirydd – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Crynodeb:

Mae'r Bwrdd yn chwarae rhan allweddol wrth lunio strategaeth, gweledigaeth, pwrpas a diwylliant Bwrdd Iechyd. Mae'n dwyn y Bwrdd Iechyd i gyfrif am ddarparu gwasanaethau, perfformiad, cyflawni strategaeth a gwerth am arian, a datblygu a gweithredu strategol.

Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod risgiau i'r Bwrdd Iechyd, staff a'r cyhoedd yn cael eu rheoli a'u lliniaru'n effeithiol. Dan arweiniad Cadeirydd annibynnol ac yn cynnwys cymysgedd o Aelodau Gweithredol ac Annibynnol, mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb ar y cyd am berfformiad y Bwrdd Iechyd. Bydd y Cadeirydd yn atebol i'r Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am berfformiad y Bwrdd a'i lywodraethu effeithiol, cynnal gwerthoedd y GIG, a hybu hyder y cyhoedd a phartneriaid.

Cefndir:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd neu Hywel Dda) yw'r sefydliad GIG lleol ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru. Fel Bwrdd Iechyd, maent yn cynllunio, yn trefnu ac yn darparu gwasanaethau Iechyd ar gyfer bron i 400,000 o bobl ledled Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, a Sir Benfro. Mae'r Bwrdd yn rheoli ac yn talu am y gofal a'r driniaeth y mae pobl yn eu derbyn yn y maes hwn ar gyfer anabledau corfforol, Iechyd meddwl ac anabledau dysgu.

Mae'r Bwrdd yn darparu gwasanaethau'r GIG ar draws chwarter tirlas Cymru yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru ac mae ein cymunedau wedi'u gwasgaru'n eithaf eang mewn ardaloedd gwledig. Mae bron i hanner eu poblogaeth 48.8% yn byw yn Sir Gaerfyrddin, 32.5% yn Sir Benfro, a 18.7% yng Ngheredigion. Mae gan y Bwrdd ffin fawr â siroedd eraill, ac felly mae cymunedau yn ne Gwynedd, gogledd Powys ac Abertawe/Castell-nedd Port Talbot hefyd yn defnyddio'r gwasanaethau Iechyd.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar hyn o bryd yn cymryd rhan mewn prosiect cyffrous gyda Phrifysgol Abertawe o'r enw Cydweithrediad Rhanbarthol dros Iechyd (ARCH). Dyma Iechyd a gwyddoniaeth yn cydweithio, i wella Iechyd, cyfoeth a lles pobl de-orllewin Cymru.

Crynodeb Cyhoeddusrwydd:

Dosbarthodd Llywodraeth Cymru fanylion y penodiad drwy restrau rhanddeiliaid a ddelir gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus (PBU) a phostio'r swydd wag ar wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru.

Hyrwyddodd HDUHB y penodiad trwy ei wefan fwrdd, llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â chylchrediad ymhlith y grŵp cyfeirio rhanddeiliaid a grwpiau allweddol eraill sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Hefyd cafodd ei hyrwyddo'n fewnol drwy Rwydwaith BAME y Bwrdd Iechyd i annog ceisiadau gan y grwpiau hyn.

Hyrwyddwyd y swydd wag gan y sianeli Cyfryngau Cymdeithasol canlynol a'u hysbysebu trwy'r cyfryngau a restrir isod:

Twitter – Llywodraeth Cymru - Aildrydar gan HDUHB
Facebook – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
LinkedIn - Confederasiwn y GIG a HDUHB

Hysbysebion Taledig:

Swyddi Cymru
Rhwydwaith Diversity Jobsite
Golwg 360

Crynodeb o'r broses recriwtio:

Hysbysebwyd ar wefan Llywodraeth Cymru a Swyddfa'r Cabinet rhwng 26 Medi a 20 Hydref 2023

Sift – 21 Chwefror 2024

Sesiwn Rhanddeiliaid – 7 ac 8 Mawrth 2024. Roedd aelodau'r sesiwn i randdeiliaid yn gynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd, eu partneriaid a'u rhanddeiliaid a Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd i'r ymgeiswyr gyflwyno eu hunain gan roi trosolwg byr o pam y gwnaethant wneud gais am y rôl. (5 munud). Dilynwyd hyn gan drafodaeth agored 30 munud gydag aelodau'r panel.

Cyfweliadau – 29 Chwefror 2024

Aelodaeth panel cynghori asesu:

Judith Paget, Cyfarwyddwr Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Cyffredinol, Llywodraeth Cymru a Phrif Weithredwr GIG Cymru (Cadeirydd)
Sue Tranka, Prif Swyddog Nyrsio
Dr Rosetta Plumber, Uwch Aelod Annibynnol y Panel
Steve Probert, Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Busnes y Llywodraeth
Peter Homa, Aelod Annibynnol y panel

Derbyniwyd cyfanswm 7 cais ar gyfer y rôl newydd. 5 Gwryw a 2 fenyw a 1 anabl. Argymhellwyd 4 ymgeisydd i gyfweliad er i 1 dynnu eu cais yn ôl cyn cynnal y cyfweliadau.

Ystyriodd y Panel Cynghori Asesu bod 1 ymgeisydd yn **Benodedig**.
Hoff ymgeisydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaeth Cymdeithasol – Neil Wooding

Gwrthdaro Buddiannau

Dim

Gweithgaredd Gwleidyddol

HSC(6) 30-24 Papur 10

Dim